**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**
**Ystafell Amroth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ a Microsoft Teams**
**Dydd Iau 5 Mawrth 2026 13:00- 15:00**

## Cofnodion

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Sarah Jones AS | Y Gweinidog dros Blismona a Throseddu, y Swyddfa Gartref |
| Ifan Charles | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Nicola Brain | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Nicholas Evans | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Heddlu Gogledd Cymru |
| Andrew Tuck | Ditectif Brif Uwch-arolygydd Heddlu Gwent |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Dave Holloway-Young | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Gemma Morris | Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Bwrdd Cydweithredol Cymru Gyfan |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Sasha Yilmaz | Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Victoria Martin | Is-adran Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Harry Gerrard | Swyddog Datganoli, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Naomi Alleyne | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol (Polisi), CLILC |
| Andrew Morgan, | Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Sian Curley | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Stacey Evans | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Plismona yng Nghymru |
| Jake Watson | Ysgrifennydd Preifat, y Swyddfa Gartref |
| Sara Cogan | Ysgrifennydd Ymweliadau, y Swyddfa Gartref |
| Joanna Huddleston | Gweinyddwr, Uned Gyswllt yr Heddlu |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Uned Gyswllt yr Heddlu i weithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu dyddiad cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru | Uned Gyswllt yr Heddlu/Swyddogion Llywodraeth Cymru |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Diolchodd i'r Gweinidog dros Blismona a Throseddu, Sarah Jones AS, am ddod i'r cyfarfod, gan nodi mai hwn oedd cyfarfod olaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn ystod y Chweched Senedd yn ogystal â'r cyfarfod olaf y bydd yn ei gadeirio oherwydd ei hymddeoliad sydd i ddod.

## 2. Sylwadau Rhagarweiniol – y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Throseddu, Sarah Jones AS

Nododd y Gweinidog dros Blismona mai'r Cadeirydd yw'r Aelod Senedd benywaidd sydd wedi gwasanaethu hiraf, a diolchodd iddi am ei holl waith. Ychwanegodd fod cryn waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r model arfaethedig ar gyfer llywodraethu plismona yn y dyfodol yng Nghymru, ac ychwanegodd ei bod wedi gweld gwaith rhagorol o ran technoleg newydd a phlismona proffesiynol yn ystod ei hymweliad â Chaerdydd y bore hwnnw.

## 3. Y Model Arfaethedig ar gyfer Llywodraethu Plismona yn y Dyfodol yng Nghymru– Diweddariad a Thrafodaeth

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a diolchodd i'r holl bartneriaid a Swyddogion Llywodraeth Cymru am eu gwaith cyflym a'u proffesiynoldeb, gan nodi bod yr ymateb wedi bod yn rhyfeddol yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd y mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei wynebu.

Mae plismona yng Nghymru wedi datblygu opsiynau llywodraethu lefel uchel ond bu angen mwy o amser ar Lywodraeth Cymru a CLILC i ystyried y goblygiadau i wasanaethau datganoledig. Un o gryfderau craidd dull llywodraethu Cymru yw adeiladu drwy bartneriaeth ac mae nifer o feysydd eisoes wedi'u nodi lle ceir consensws ochr yn ochr â nifer o feysydd y mae angen eu hystyried ymhellach.

Mae gan Lywodraeth Leol rôl hanfodol i'w chwarae o ran y trefniadau newydd, yn ogystal â deall cyd-destun datganoledig unigryw Llywodraeth Leol yng Nghymru a'r ddeddfwriaeth gymhleth sy'n sail i hyn, ac mae cyfarfod rhwng Arweinwyr Cynghorau Lleol wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mawrth 2026.

Nododd y Cadeirydd mai'r ffordd ffafriedig o reoli hyn fyddai datganoli plismona gan y byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddylunio'r system briodol, ond cydnabu safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Dylai trefniadau craffu, llywodraethu ac adrodd fod yn dryloyw ac yn hygyrch er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r cyhoedd ymddiriedaeth a hyder mewn plismona a'u bod yn gwerthfawrogi'r cyd-destun Cymreig yn ogystal â chynnal cryfder y trefniadau presennol drwy adeiladu ar y dull partneriaeth sydd ar waith. Dylai'r system ddwyn ynghyd penderfynwyr o'r sector plismona a'r holl wasanaethau cysylltiedig allweddol er mwyn helpu i gadw cymunedau'n ddiogel ac atal troseddu. Nododd y Cadeirydd fod rhai o'r gwasanaethau hynny'n gweithredu ar sail ranbarthol yng Nghymru, gyda rhai'n wasanaethau lleol ac eraill yn wasanaethau cenedlaethol, ac ychwanegodd nad oes gan Gymru Feiri ond bod ganddi Lywodraeth Genedlaethol a Senedd sy'n gwneud ei Deddfau ei hun ac sydd â'i threfniadau ei hun, ac felly fod darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth y gallai unrhyw gynnig sy'n cael ei ystyried effeithio arnynt.

Cytunir y bydd angen haen ranbarthol yn ogystal â haen genedlaethol ar y system i Gymru. Cytunir hefyd fod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn Fwrdd Cenedlaethol sy'n dwyn y bartneriaeth honno ynghyd ac y dylai fod yn rhan ffurfiol o'r trefniant newydd. Nododd fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Cydnabu hefyd fod gwendid yn y dull llywodraethu presennol gan ei fod yn dibynnu ar ewyllys da a chyfranogiad gwirfoddol, felly mae'n gyfle i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

**3.1.** Esboniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools y bydd Lee Jones yn disgrifio'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Plismona yng Nghymru i ddatblygu cynigion llywodraethu yn fanwl ond diolchodd hithau hefyd i'r rhai sydd wedi bod cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r model arfaethedig. Yn dilyn y cyhoeddiad y byddai rolau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu diddymu, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru wedi chwarae rhan adeiladol wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer y dyfodol a defnyddio eu profiad mewn trefniadau newydd.

Mae Plismona yng Nghymru wedi manteisio ar y cyfle i geisio datblygu'r trefniadau ar gyfer y dyfodol i gyd-fynd â hunaniaeth Gymreig yn gyflym. Mae cryn gefnogaeth i'r model ond mae rhai meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith.

**3.2.** Diolchodd Lee Jones i'r Cadeirydd am y pwyntiau a wnaed a nododd eu bod yn cyd-fynd â'i ddiweddariad. Roedd yn ddiolchgar am y cyfle i ddangos sut beth y gallai model Cymru fod gan fod gwahaniaethau o ran sut mae Cymru yn gweithredu yn ogystal â heriau cyfreithiol. Mae plismona yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar wasanaethau datganoledig ac yn elwa ar gydweithio â nhw, felly mae cyfle i gryfhau hynny drwy wneud diwygiadau. Mae Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn enghraifft o hynny ac yn tynnu sylw at yr angen i gael bwrdd cenedlaethol, yn enwedig o ystyried rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau datganoledig fel iechyd, addysg a chamddefnyddio sylweddau ac ati, yn ogystal â chryfhau llais cenedlaethol Cymru drwy fforwm cenedlaethol mwy ffurfiol ac ymgorffori trefniadau partneriaeth gan gynnal annibyniaeth weithredol plismona ar yr un pryd.

Roedd Plismona yng Nghymru am weld cysondeb â gofynion y Papur Gwyn. Nid yw'r cynnig yn gymhleth; mae'n cynnwys bwrdd cenedlaethol gyda byrddau rhanbarthol ar olion traed heddluoedd presennol gyda'r gallu i ehangu pan fo angen, gan gyd-fynd â phartneriaethau eraill fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ac ati ar yr un pryd. Y nod fu peidio â cholli ffocws ar atal ac ymyrryd a gweithio o fewn strwythurau Cymru gan barchu cynlluniau Llywodraeth y DU ar yr un pryd.

O ran y model Maerol, dylai fod cydraddoldeb yng Nghymru â phartneriaid yn Lloegr. Nododd Lee Jones y byddai'r byrddau rhanbarthol yn disodli Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i bob pwrpas, ond bod angen gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran y galw arnynt, yn ogystal â sicrhau y parheir i graffu ar berfformiad heddluoedd lleol. Byddai'r Bwrdd Cenedlaethol yn sicrhau cysondeb strategol ledled Cymru â gwaith partneriaeth Cymru gyfan a threfniadau goruchwylio systemau partneriaeth sydd eisoes ar waith ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol hefyd yn darparu llais Cymreig cydlynol i Lywodraeth y DU ond mae Plismona yng Nghymru yn ymwybodol y byddai angen iddo gyd-fynd â safbwyntiau cyfredol ar ddatganoli.

Rhaid i'r model fod â llinell weledigaeth a gallu ehangu i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol; mae'r model arfaethedig yn cyflawni hynny drwy weithio gyda phartneriaid o ran sefydlu trefniadau ar gyfer timau cymorth a threfniadau lletya. Mae llawer o waith yn cael ei wneud drwy Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu nad yw'n cael ei gydnabod, megis comisiynu ac mewn perthynas â phartneriaeth. Mae'r model arfaethedig yn cadw'r cryfderau ac yn mynd i'r afael â gwendidau presennol. Mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i gefnogi cyfeiriad y Papur Gwyn a'i integreiddio.

**3.3.** Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynghorydd Andrew Morgan, gan nodi ei bod yn ddefnyddiol cael barn CLlLC am fod ganddi rôl hanfodol yn y trefniadau newydd. Ailddatganodd y Cynghorydd Morgan ei gefnogaeth i'r model arfaethedig gan ychwanegu bod ganddynt gydberthynas waith gadarnhaol â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, Comisiynwyr yr Heddlu a Heddluoedd drwy'r nifer mawr o fyrddau diogelwch cymunedol sydd ar waith. Mae CLlLC o'r farn bod y lleoliaeth o ran Llywodraeth Leol yn beirniadu yn bwysig, gan nodi, ar sail y trafodaethau sydd wedi'u cynnal, bod y farn yn cael ei rhannu ond bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 13 Mawrth 2026 i drafod y safbwynt hwn ymhellach.

**3.4.** Diolchodd y Gweinidog Plismona am y gwaith sydd wedi'i wneud a'r ffordd y mae partneriaid yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y broses ers cyhoeddi y byddai rolau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu diddymu a'r Papur Gwyn, a diolchodd hefyd i'r Swyddfa Gartref am gydweithio. Roedd o'r farn bod y model arfaethedig yn ymddangos yn gadarnhaol ac y gall Lloegr ddysgu o'r ffordd y mae gwaith yn cael ei wneud yng Nghymru. Mae egwyddorion y model arfaethedig yn ddefnyddiol i'r Swyddfa Gartref a dywedodd ei bod yn ddiolchgar am y model ac yn awyddus i'w weld yn symud i'r cam nesaf.

Nododd y Gweinidog fod egwyddorion Diwygio’r Heddlu wedi’u cytuno ac, felly, ei bod yn bwysig gweithio’n effeithiol gan fod yr amserlen yn dynn. Nododd fod angen sicrhau bod y mesurau allweddol yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth ar gyfer Araith nesaf y Brenin ond y bydd angen penderfynu’n derfynol ar y manylion tymor hwy maes o law. Y cam nesaf yw edrych ar y Bwrdd Cenedlaethol, fel y nodwyd uchod, ac ystyried materion fel Trais yn erbyn Menywod a Merched a Throseddau Difrifol a Cyfundrefnol a sut i ymgorffori plismona o safon uchel ledled Cymru a Lloegr.

**3.5.** Diolchodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn i'r Cadeirydd am ei harweinyddiaeth ar Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ac o ran agenda VAWG Cymru. Fel y nododd y Gweinidog Plismona, cafodd gyfle i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghaerdydd ond mae'n teimlo bod y gwasanaeth plismona yng Nghymru wedi'i ddiogelu i ryw raddau gan benderfyniadau y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u gwneud megis y rhai ynghylch y Praesept a'r cyllid ychwanegol a gafwyd drwy Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chadw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac, felly, mae'n awyddus i gryfhau hyn o ran unrhyw newidiadau i ddatblygiad y Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol. Nododd fod nifer o bwyntiau y cytunwyd arnynt yn y Papur Gwyn, megis canolbwyntio'r Grant Plismona yn y Gymdogaeth, ond nid ar draul y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Gellir ehangu'r model a gyflwynwyd o ran llywodraethu plismona a darparu gwasanaeth gwell i gymunedau.

## 4. O'r Lleol i'r Cenedlaethol: Papur Gwyn Diwygio'r Heddlu– y Goblygiadau i Gymru

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, sy'n nodi safbwynt Llywodraeth Cymru, a nododd fod sylw wedi'i roi i lawer o'r materion hyn yn gynharach yn y cyfarfod gan fod llawer o'r cynigion yn bellgyrhaeddol. Ychwanegodd fod y manteision posibl o ran canoli yn cael eu cydnabod ond ei bod yn bwysig bod arian a godir yng Nghymru yn cael ei gadw yng Nghymru; mae hefyd yn bwysig bod unrhyw dargedau a threfniadau goruchwylio diwygiedig yn cael eu llunio ar gyfer cyd-destun Cymru.

Mae'n ymwybodol bod yr Arglwydd Hogan-Howe wedi'i benodi i arwain yr Adolygiad Annibynnol o Strwythurau'r Heddlu. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i brosesau fetio a chynnal Safonau Proffesiynol ar gyfer Swyddogion yr Heddlu, gan fod y mwyafrif o Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru yn weision cyhoeddus dewr sy'n ymroddedig i wasanaethu cymunedau, ond mae angen cydnabod problemau sy'n ymwneud â lefelau isel o ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu. Dywedodd ei bod yn falch o'r hyn y mae partneriaethau yng Nghymru wedi'i gyflawni megis Bwrdd Partneriaeth VAWDASV yng Nghymru, sy'n enghraifft o'r ffordd y mae partneriaid yng Nghymru yn cydweithio at y diben unedig o gadw Cymru yn ddiogel.

**4.1.** Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod y sector plismona wedi bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r model a bod cryfder gwirioneddol mewn cydweithio a chydgynhyrchu, rhywbeth y mae Prif Gwnstabliaid yn awyddus i beidio â'i golli gan ei fod o fudd i gymunedau yng Nghymru. Mae angen i waith yn y dyfodol ganolbwyntio ar gymunedau yng Nghymru, yn enwedig gan fod y praesept yn uwch yng Nghymru.

Mae'r cynigion yn y papur wedi cyrraedd lefelau amrywiol o aeddfedrwydd, ac mae fforenseg yn un maes sydd wedi bod yn cael ei ddatblygu ers peth amser ac sydd mewn sefyllfa gryfach i symud ymlaen o gymharu â meysydd eraill lle bydd angen gwneud cryn dipyn o waith er mwyn galluogi ailstrwythuro sy'n addas i gymunedau a'r gweithlu.

O ran y Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol, mae angen i'r Cwnsleriaid Seneddol baratoi deddfwriaeth o fewn amserlen dynn er mwyn i'r Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol gael ei gyflwyno yn 2027. Mae'n bosibl y bydd yn gyfrifol am Fforenseg, Twyll, Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu, Cyllid, TG a gwasanaethau masnachol ac ati. Yr Ysgrifennydd Cartref fydd yn gyfrifol am ddwyn y Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol i gyfrif am gyflawni. Bydd y Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol yn gyfrifol am bedwar maes allweddol, sef: Arweinyddiaeth Strategol, Gosod Safonau yr oedd y Coleg Plismona yn gyfrifol am ei wneud yn flaenorol, Gwasanaethau Galluogi gan gynnwys cydgrynhoi'r gwaith o ddarparu goruchwyliaeth genedlaethol o TG a gwasanaethau masnachol, yn ogystal ag elfen o Orfodi’r Gyfraith yn Weithredol gan gynnwys Gwrthderfysgaeth, yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol ac Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs) ac ati. Felly, bydd angen gwneud llawer iawn o waith i gyflawni hyn o fewn yr amserlen a roddwyd.

Mae Plismona yng Nghymru eisoes wedi dechrau ystyried strwythurau posibl ar gyfer y dyfodol drwy

ffurfio Grŵp Cydgysylltu Strwythurau Heddluoedd Cymru, gydag uwch-arweinwyr o bob Heddlu yng Nghymru, tra bod Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol yn cael ei gwblhau. Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman ei bod wedi siarad â'r Arglwydd Hogan-Howe i dynnu sylw at y ffaith bod y gwaith wedi dechrau a bod angen sicrhau bod safbwynt yr Ysgrifennydd Cartref yn glir o ran y Papur Gwyn ac y caiff ei gyflwyno yng Nghymru mewn ffordd ystyrlon. Mae Plismona yng Nghymru wedi nodi'n glir ei fod am ddangos yr hyn y mae'n ei wneud mewn perthynas â sylfaen dystiolaeth gan ei bod yn bwysig dod â chymunedau a phartneriaid ynghyd.

O ran gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau plismona yn lleol, nododd fod her i sicrhau y gall plismona lleol ymateb i ddisgwyliadau lleol wrth weithio yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol. Yng Ngogledd Cymru, mae 53% o'r gyllideb yn dod o'r praesept ac, felly, mae sicrhau bod cymunedau yn ymwybodol o'r hyn y maent yn cyfrannu ato yn hanfodol.

O ran technoleg a data, nododd y Prif Gwnstabl Blakeman fod Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn faes pwysig; eglurodd fod 40 o faniau ychwanegol yn cael eu hariannu'n genedlaethol a bod cynlluniau i ddatblygu fframwaith cyfreithiol pwrpasol ar ddefnyddio technoleg megis Deallusrwydd Artiffisial. Mae'r Prif Gwnstabl Vaughan wedi bod ar flaen y gad gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn, sy'n golygu bod Cymru mewn sefyllfa dda.

**4.2.** Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools fod Plismona yng Nghymru wedi'i integreiddio ar y Bwrdd Diwygio Traws-System ac, mewn perthynas â llywodraethu plismona, fod grŵp penodedig i Gymru a fydd yn parhau i gael adnoddau er mwyn sicrhau y gellir dylanwadu ar waith cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu o'r tu mewn i Gymru.

Ychwanegodd fod angen ystyried y dirwedd unigryw yng Nghymru a sicrhau bod gan Gymru lais cryf yn y Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf. Byddai dadlau dros lais cenedlaethol adnabyddadwy o fewn y trefniadau llywodraethu tri pharti yn flaenoriaeth, a dylai Cymru gael ei chynrychioli mewn unrhyw awgrymiadau ar gyfer trefniadau cysgodi a allai gael eu sefydlu.

O ran Diwylliant Cymru a'r Gymraeg, mae angen i unrhyw sefydliad sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr ddeall bod Plismona yng Nghymru wedi hyrwyddo cynrychiolaeth Cymru yn barhaus a bod angen cynnwys Cymru yn y dyluniad o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig gan nad yw safonau'r Gymraeg wedi cael eu hystyried o'r blaen.

Mae plismona yng Nghymru yn gweithio i sefydlu fforwm penodedig o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid yng Nghymru a all ystyried tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'i chynnwys yn yr Adolygiad Annibynnol o Strwythurau'r Heddluoedd. Mae diwygio yn gyfle y dylid manteisio arno i adlewyrchu anghenion, fel eu bod yn ymgysylltu'n adeiladol i sicrhau'r gwasanaeth heddlu gorau i Gymru.

**4.3.** Diolchodd y Prif Gwnstabl Vaughan i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools a’r Prif Gwnstabl Blakeman, yn ogystal â’r Swyddfa Gartref am ba mor gyflym y maent yn gweithredu. Yn ei farn ef, mae angen ailystyried Cylch Gorchwyl Rhaglen Effeithlonrwydd a Chydweithio'r Heddlu yng nghyd-destun y Papur Gwyn, y mae'n gobeithio y bydd yn cynnwys y penderfyniad i wneud penderfyniadau cliriach er budd gwasanaethau plismona lleol. Mae Plismona yng Nghymru ymhellach ar y blaen o ran trafodaethau nag unrhyw le arall yn Lloegr ac, felly, mae'n awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Gartref i greu system fwy unedig ym mhob rhan o'r sector plismona yng Nghymru a Lloegr.

**4.4.** Cytunodd Sarah Jones AS a nododd fod y Warant Plismona yn y Gymdogaeth/Plismona Lleol yn hanfodol i'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a bod yn rhaid sicrhau mai nhw yw'r ffocws canolog. Ychwanegodd mai un agwedd ar y Papur Gwyn yw llesiant a bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwnnw, gan nodi ei bod yn awyddus i ofalu am unigolion sy'n gwneud y gwaith anodd hwn.

**4.5.** Cytunodd y Prif Gwnstabl Blakeman ac ychwanegodd fod llawer iawn o waith wedi'i wneud yn y maes hwn gan fod yr elfen llesiant yn bwysig. Nododd y gall ffactorau fel cyfarpar a brynir ar gyfer swyddogion effeithio ar hyn gan fod boddhad swydd yn cael ei golli os rhoddir cyfarpar nad yw'n gweithio fel y dylai iddynt.

**4.6.** Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn sylw at y ffaith bod llawer iawn o waith wedi'i wneud o ran gwella effeithiolrwydd. Felly, mae'n bwysig deall effaith materion megis y Bil Dedfrydu o ran rheoli troseddwyr, sydd wedi rhoi mwy o faich ar y sector plismona, a sut mae hyn yn effeithio ar waith diwygio. Er enghraifft, os na chaiff adnoddau eu dyrannu ar lefel genedlaethol, sut y bydd hyn yn cael ei ariannu gan fod y praesept eisoes yn uwch yng Nghymru ac disgwylir i ddyraniadau cyllid ostwng ymhellach er mwyn ariannu'r Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol. Cyfeiriodd at hyfforddiant Arfau tanio fel enghraifft gan fod cost o £60m yn gysylltiedig â'r maes tanio newydd a ariennir gan y tri heddlu yn Ne Cymru, galluogrwydd cenedlaethol a ariennir gan gyfraniadau trethdalwyr lleol. Holodd a fyddai ad-daliad i heddluoedd ar y buddsoddiad cyfalaf, rhywbeth y mae angen ei gynnwys yn yr adolygiad. Mae heddluoedd yng Nghymru yn y chwartel uchaf gyda 40-50% o'r cyllid yn cael ei ddarparu o drethi lleol wrth edrych ar yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a allai achosi problemau pe bai heddluoedd yn uno.

**4.7.** Nododd Sarah Jones AS fod hon yn drafodaeth ddefnyddiol a bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud, gyda rhai ardaloedd yn symud ymlaen yn gyflymach nag eraill, ond pwysleisiodd fod cymunedau wrth wraidd y gwaith.

**5. Materion i'w Diweddaru/Nodi**
**5.a. Cydweithio rhwng Plismona yng Nghymru a'r Sector Addysg**

Esboniodd Paul Morris fod hanes hir o gydweithio rhwng y sector Plismona a'r sector Addysg yng Nghymru, gan nodi Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru a fu ar waith am ryw ddegawd cyn iddi ddod i ben oherwydd heriau cyllido. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yng Nghymru gynnull Cyfarfod Bord Gron ar Drais mewn Ysgolion ac yna Uwchgynhadledd Ymddygiad yn y Sector Addysg lle disgrifiodd arweinwyr o nifer o sectorau yr heriau roeddent yn eu hwynebu, ac o ganlyniad i hynny, cynhaliwyd trafodaethau pellach rhwng y sector Addysg a'r sector Plismona. O ganlyniad, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu £500,000 wedi'i rannu rhwng y pedwar heddlu ar gyfer y flwyddyn bresennol a hyd at £1m ar gyfer 2026/27. Pwysleisiwyd na fyddai hyn yn disodli'r rhaglen flaenorol ond y byddai'n adlewyrchu'r heriau newydd y maent yn eu hwynebu nawr. Mae cyfarfod gweithgor yn cael ei gynnal i gytuno ar raglen waith o ran sut y gellir gwario'r arian yn effeithiol.

**5.b. Partneriaeth Lleihau Damweiniau GanBwyll**

Nododd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gemma Morris fod yr Uwch-arolygydd Tom Moore wedi cael ei benodi'n Bennaeth newydd GanBwyll ac y bydd yn gweithio'n agos gyda'r tîm yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull gweithredu wedi'i fireinio newydd ar gyfer Partneriaeth GanBwyll. Bydd hyn yn ategu'r Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd Strategol newydd sy'n amlinellu dyheadau a bwriadau ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd yn y tymor hwy. Bydd set newydd o amcanion yn gwella allbwn ac yn sicrhau canlyniadau gwell ac mae cyfarfodydd rheolaidd hefyd wedi'u sefydlu gyda phartneriaid allweddol a Llywodraeth Cymru.

Disgrifiodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Morris yr amcanion, sef: helpu Llywodraeth Cymru i lunio Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd, helpu awdurdodau lleol ac awdurdodau priffyrdd i bontio i'r Cydbwyllgor Corfforedig a chynllunio i weithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn adolygu'r terfynau cyflymder cenedlaethol newydd a'r canllawiau wedi'u diweddaru ar oleuadau traffig ffyrdd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Yn hanesyddol, byddai hyn wedi canolbwyntio ar y 5 Angheuol (goryrru, gwregysau diogelwch, gyrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau, tynnu sylw (yn enwedig ffonau symudol) a gyrru'n ddiofal), ond ceir hefyd ddarpariaeth leol i gefnogi cerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn a gellid ei thargedu drwy gyfuniad o addysg a gorfodi. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r sector plismona i fynd i'r afael â phryderon cymdogaethau fel y byddai'n fwy cyfannol yn hytrach nag yn seiliedig ar gosbau yn unig.

O ran Ymgyrch Snap, mae prosesau rhannu data yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn fwy effeithiol ac effeithlon, mewn partneriaeth â'r tîm yn Uned Gyswllt yr Heddlu a Swyddogion Llywodraeth Cymru.

**5.b.1** Croesawodd y Cadeirydd y diweddariad cadarnhaol, gan nodi ei fod yn dangos y bartneriaeth yng Nghymru a'i bod wrth wraidd cymunedau lleol.

### 5.c. Etholiadau'r Senedd: Materion i'w Nodi

Nododd y Cadeirydd fod Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn ymarfer gyda'r Uned Parodrwydd ar y Cyd ar gyfer Etholiadau a Diogelwch sy'n helpu i nodi sut y byddai Llywodraethau, y sector Plismona a phartneriaid ehangach yn rhyngweithio pe bai digwyddiad. Diolchodd i'r sector plismona am ei weithgarwch ymgysylltu parhaus â swyddogion canlyniadau, y Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol.

Nododd fod y sefyllfa gyffredinol yn gadarnhaol ac mai'r consensws yw eu bod mewn sefyllfa eithaf da o ran yr etholiadau sydd ar ddod, ond bod y sefyllfa ryngwladol yn newid yn gyflym gyda digwyddiadau a all gael sgil-effeithiau. Rhoddodd yr enghraifft o erthygl yn y cyfryngau lle roedd ymgeisydd wedi tynnu'n ôl o Is-etholiadau Cyngor yn Sir Benfro oherwydd y cam-drin a brofodd ei phlentyn, sy'n dangos pa mor eang y gall effaith cam-drin fod.

**5.c.1.** Cydnabu'r Prif Gwnstabl Vaughan fod diogelwch ymgeiswyr a Gweinidogion etholedig wedi'i drafod yng ngoleuni llawer o naratifau sydd wedi gorgyffwrdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i hyn, mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Belcher yn Heddlu De Cymru wedi bod yn cefnogi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff eraill ac wedi ymgysylltu â sefydliadau amrywiol i'w cynghori ar ddiogelwch a beth i'w wneud os byddant yn wynebu problemau ac, felly, mae cydberthnasau wedi'u meithrin.

**5.c.2.** Nododd Naomi Alleyne fod CLILC yn ddiolchgar am gael cyfarfod â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Belcher a'r gwaith roedd wedi'i wneud wrth helpu i'w paratoi. Bydd CLILC yn adolygu sut aiff Etholiadau'r Senedd ac yn paratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol ond diolchodd unwaith eto am waith y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Belcher.

## 6. Diwedd y Chweched Senedd: Myfyrdodau gan Plismona yng Nghymru

Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools am fyfyrio ar gyfraniad rhyfeddol y Cadeirydd i fywyd cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig o ran ymgyrchu dros gyfiawnder cymdeithasol ym mhob rhan o gymdeithas. Tynnodd sylw at y ffaith bod gyrfa'r Cadeirydd mewn Gwleidyddiaeth Leol a Chenedlaethol yn nodedig o ran ei chyflawniadau a'i hirhoedledd, ar ôl gwasanaethu yn hen Gyngor Sir Forgannwg am 12 mlynedd, cael ei hethol i'r Cynulliad Cenedlaethol Cyntaf yn 1999 ac yna ymgymryd â chyfres o rolau Uwch-weinidogol yn cwmpasu amrywiaeth eang o bortffolios. Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools mai Jane Hutt AS yw'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru sydd wedi gwasanaethu hiraf a bod ei hymrwymiad a'i hegni wrth wasanaethu'r cyhoedd ledled Cymru wedi'u hadlewyrchu yn y ffaith iddi gael CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin yn 2023.

Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools fod angerdd Jane Hutt MS dros newid wedi bod wrth wraidd ei gyrfa wleidyddol, gan ychwanegu ei bod yn un o sefydlwyr Cymorth i Ferched Cymru, yn Gyd-gadeirydd ar y Bwrdd VAWDASV ac wedi arwain y gwaith o roi deddfwriaeth arloesol Deddf VAWDASV ar waith yn 2015 gan ddarparu dull systemau cyfan drwy'r glasbrint dilynol.

Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools fod y Cadeirydd hefyd wedi dadlau'n gryf yn erbyn hiliaeth ac mai ffrwyth ei gwaith caled hi oedd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol trawslywodraethol Cymru a baratôdd y ffordd ar gyfer cyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Mae arweinyddiaeth Jane Hutt AS wedi canolbwyntio ar gryfhau cydweithrediadau â phartneriaid yn y sector plismona a'r sector cyfiawnder troseddol yn ogystal â symud y trafodaethau o ymwybyddiaeth i weithredu ystyrlon.

**6.1.** Diolchodd y Prif Gwnstabl Blakeman i'r Cadeirydd ar ran y pedwar Prif Gwnstabl am ei harweinyddiaeth, ei pharodrwydd i weithio mewn partneriaeth a'i phragmatiaeth wrth weithio ochr yn ochr â heddluoedd. Er bod plismona yn wasanaeth a gedwir yn ôl, drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, mae'r gydberthynas wedi bod yn un gadarnhaol ac wedi canolbwyntio ar fudd pennaf pobl Cymru. Nododd fod y sector plismona wedi ymdrin â rhai problemau heriol, megis natur ddigynsail pandemig COVID-19, pan wynebwyd rhai cyfnodau anodd, ond bod y sector plismona bob amser yn teimlo ei fod wedi ymgysylltu yn ystod y broses.

Nododd ymrwymiad parhaus Ysgrifennydd y Cabinet i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gan sicrhau bod cymunedau mor ddiogel â phosibl, sydd wedi bod yn heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan orfodwyd Llywodraeth Cymru i wneud rhai toriadau sylweddol yn y gyllideb. Er bod yn rhaid i heddluoedd reoli rhai gostyngiadau yn nifer cyffredinol y swyddogion a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd Jane Hutt AS yn allweddol i sicrhau bod y cyllid yn parhau.

Ychwanegodd fod y Cadeirydd wedi gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael â hiliaeth a gwahaniaethu o bob math yn ogystal â gweithio gyda Chymdeithas yr Heddlu Du i annog mwy o bobl o Gymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol i ddod yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i wasanaethu cymunedau a gweithio tuag at sicrhau gweithlu mwy cynrychioliadol. Roedd hefyd wedi cefnogi'r cynllun reidio gyda swyddogion yn y Barri ac wedi mynd i orymdaith cwblhau hyfforddiant yng Ngwent yn ogystal â Seremoni Goffa Genedlaethol yr Heddlu a Gwobrau Dewrder Blynyddol yr Heddlu, sy'n dangos ei chefnogaeth i'r sector plismona.

**6.2.** Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu sylwadau a phwysleisiodd ei bod am ddiogelu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar y cyd ac y bydd yn parhau i fod yn sylwedydd cefnogol.

## 7. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Plismona yng Nghymru: Cymeradwyol a Llofnodi

Nododd y Cadeirydd y byddai hi a'r Ysgrifennydd Parhaol yn llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno ar ran Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â Plismona yng Nghymru. Fel y nodwyd yn y cyfarfod, mae diogelu cymunedau ac atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng Nghymru a mynd i'r afael ag ef yn gofyn am ymddiriedaeth rhwng partneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ac mae wedi mabwysiadu dull gweithredu ystyriol o drawma a gwrth-hiliol i ysgogi penderfyniadau strategol a diogelu cymunedau yng Nghymru.

**7.1.** Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools o'r farn ei bod yn bwysig llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y cyfarfod hwn er mwyn cymryd y cam tuag at ffurfioli'r bartneriaeth sydd wedi'i meithrin. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lunio ar y cyd ac mae'n nodi blaenoriaethau a ddylai fod yn sail i sicrhau bod llywodraeth newydd yn cynnal y gydberthynas.

**7.2.** Diolchodd y Cadeirydd i weision cyhoeddus yn Llywodraeth Cymru a weithiodd yn ddiflino ac roedd hefyd am ddiolch i'r rheini yn rheng flaen plismona gweithredol.

## 8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (18/12/25)

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2025 yn gywir.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Nododd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio gwneud datganiad yn ystod yr wythnosau nesaf ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cael ei ddatblygu gyda'r Gwasanaethau Prawf. Mae gwaith wedi'i wneud gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ac mae swyddogion wedi adolygu'r gwaith a gyflawnwyd gan Heddlu Manceinion Fwyaf. Mae llawer o bartneriaid yn cymryd rhan ac mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac o bosibl Gynghorau, yn ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i lunio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gan y bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd lleol o ran teilwra gwasanaethau at anghenion unigolion dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Gofynnodd y Cadeirydd i Uned Gyswllt yr Heddlu weithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu dyddiad er mwyn sicrhau bod y gydberthynas yn cael ei chynnal.

**Cam gweithredu: Uned Gyswllt yr Heddlu i weithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.**